

Adroddiad blynyddol 2023-4 ar gydymffuriad Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant â Safonau Iaith Comisiynydd y Gymraeg

Disodlodd Safonau'r Iaith Gymraeg Cynllun Iaith Gymraeg Coleg Dewi Sant, a sefydlodd weithdrefnau a disgwyliadau ynghylch darparu gwasanaethau dwyieithog i holl rhanddeiliaid y coleg. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan y Coleg ddyletswydd i gydymffurfio â 189 o safonau unigol, wedi'u grwpio i bum dosbarth; Cyflenwi Gwasanaethau, Lluoio Polisi, Gweithredu, Cadw Cofnodion a Safonau Atodol.

Mynegwyd yn glir i'n hadrannau gweithredol y ddyletswydd sydd arnom i gydymffurfio â'r Safonau hyn, ac fe'i gwerthusir hynny'n flynyddol. Mae sesiynau hyfforddiant ar y Safonau yn cael eu darparu a'u cynnwys o fewn ein cynllun datblygu proffesiynol pob blwyddyn.



SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

O 2021 ymlaen, mae gan Coleg Dewi Sant ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod gan bawb yr hawl i gyfathrebu a derbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Cyfrifoldeb pawb yw hyn, ac fel aelod staff, ceir nifer o bethau y mae'n rhaid i chi wneud: Ewch i fewnwyd y Coleg, a chymerwch olwg ar y safonau ar gyfer bob ardal. Am gyngor a chanllawiau, cysylltwch â welsh@stdavidscollege.ac.uk neu ffoniwch 395.



Pan fyddwch chi'n ateb ffôn i alwadau mewnol ac allanol, defnyddiwch gyfarchiad syml megis Bore da, Prynhawn da, Shwmae. Os ydynt am barhau â'r sgwrs yn Gymraeg, trosglwyddwch i siaradwr Cymraeg yn eich adran neu ffoniwch 395. Pryd bynnag y byddwch chi'n cyhoeddi rhif ffôn coleg, ychwanegwch y llinell 'Mae Coleg Dewi Sant yn croesawu galwadau yn Gymraeg'.



Rydym yn gofyn i bobl neu sefydliadau a gysylltw'n aml gyda nhw os ydynt am dderbyn cyfathrebiadau yn Gymraeg. Pan rydym yn anfon gwybodaeth i'r bobl hynny, neu i grwpiau o bobl ar ran y Coleg, rydym yn gwneud hyn yn Gymraeg. Pan mae pobl yn cyfathrebu gyda ni yn Gymraeg, rydym yn ymateb yn Gymraeg.



Pan rydym yn cyfathrebu trwy ebost, rydym yn defnyddio llofnodion ebost dwyieithog a negeseuon 'tu allan i oriau' dwyieithog. Ebostiwch welsh@stdavidscollege.ac.uk



Pan rydych chi'n gwahodd pobl allanol i gyfarfodydd, gofynnwn os ydynt yn dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Os ydynt, ebostiwch [Welsh@stdavidscollege.ac.uk](mailto:welsh@stdavidscollege.ac.uk) am gyfieithydd.



Rydym yn hollol ddwyieithog ar-lein, trwy ein gwefan, pyrth, a chyfryngau cymdeithasol. Golyga hyn fod popeth rydyn ni'n postio yn Saesneg y byddwn yn postio yn Gymraeg ar yr un pryd heb oedi. Byddwn ni'n ymateb i bobl yn eu dewis iaith.



Rydym yn argraffu ac yn arddangos yn ddwyieithog. Bydd holl hysbysfyrddau ac hysbysiadau a arddangosir gennym neu argraffiadau a anfonir yn allanol yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Mae gan bob aelod staff yr hawl i ofyn am y canlynol trwy gyfrwng y Gymraeg: Cyfarfodydd, Dogfennau yn ymwneud â chyflogaeth, Hyfforddiant, Meddalwedd Cyfrifiadurol, Gwersi Cymraeg

Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth: 17 Ionawr 2024

Rhif(au)'r Safon(au)	Maes Cydymffurfio	Sut mae'r coleg wedi cydymffurfio
1-7	Derbyn a danfon gohebiaeth ysgrifenedig	<p>Mae'r coleg yn cadw cofnod o iaith ddewisol ein holl ddysgwyr ar gyfer derbyn gohebiaeth, ac rydym yn cyfathrebu yn Gymraeg pan fo'r angen.</p> <p>Mae cyfathrebiadau torfol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog, a thrinnir y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.</p> <p>Mae pob un o'n cyfathrebiadau yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, ac atebwn yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.</p>
8	Derbyn galwadau ffôn	<p>Mae ein peiriant ateb ffôn yn ddwyieithog. Bydd y rheini sy'n dymuno siarad dros y ffôn yn Gymraeg yn derbyn yr un gwasanaeth â'r rhai sy'n siarad yn Saesneg. Pan fydd person yn ffonio'r Coleg ac yn dymuno siarad dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr alwad honno'n cael ei hateb gan siaradwr Cymraeg.</p> <p>Mae'r coleg yn datgan ei fod yn croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg.</p>
15	Dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn.	Nid yw'n gymwys
16-22	<p>Derbyn galwadau ffôn a'u gwneud.</p> <p>Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.</p>	<p>Mae ein peiriant ateb ffôn yn ddwyieithog. Bydd y rheini sy'n dymuno siarad dros y ffôn yn Gymraeg yn derbyn yr un gwasanaeth â'r rhai sy'n siarad yn Saesneg. Pan fydd person yn ffonio'r Coleg ac yn dymuno siarad dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr alwad honno'n cael ei hateb gan siaradwr Cymraeg.</p> <p>Mae'r coleg yn cadw cofnod o iaith ddewisol ein holl ddysgwyr ar gyfer derbyn gohebiaeth, a lle y mae dysgwr wedi nodi'r Gymraeg, bydd galwadau ffôn i'r dysgwr hwnnw'n cael eu gwneud gan siaradwr Cymraeg.</p>
24-29	Gwahodd person(au) i gyfarfod.	Mae gan y Coleg brotocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd, sy'n cynnwys gofyn i'r bobl a wahoddir os ydynt yn dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Darperir gwasanaeth cyfieithu pan fo'r angen am hyn.
30-38	Gwahodd personau i gyfarfod cyhoeddus / myfyrwyr	<p>Caiff gohebiaeth sy'n gwahodd aelodau o'r cyhoedd / grwpiau neilltuol o fyfyrwyr / rhieni i gyfarfod ei hanfon yn ddwyieithog.</p> <p>Hysbysir y bobl sy'n mynychu'r cyfarfod bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a chaiff gwasanaeth cyfieithu ei ddarparu.</p>
40	Darlithoedd Cyhoeddus	Pan mae'r coleg yn cynnal darlith gyhoeddus, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.
41-42	Graddio / Seremoni Wobrwyo	<p>Caiff gohebiaeth sy'n gwahodd grwpiau neilltuol o fyfyrwyr / rhieni i'n seremoni wobrwyo ei hanfon yn ddwyieithog.</p> <p>Hysbysir y bobl a wahoddir i siarad yn y seremoni bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rhai nad ydynt yn ddwyieithog.</p>

43-52	Cynhyrchu dogfennau, ffurflenni, deunydd marchnata, polisïau, adroddiadau blynyddol, datganiadau i'r wasg, papurau ymgynghori a strategol i'r cyhoedd.	Mae pob dogfen gyhoeddus a gynhyrchir gennym ar gael yn Gymraeg, a ni chaiff y fersiwn Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'r fersiwn Saesneg yn datgan bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.
53-54	Cynhyrchu ffurflenni	Mae pob ffurflen ar gyfer myfyrwyr sy'n cael ei chynhyrchu ar gael yn Gymraeg. Mae'r fersiwn Gymraeg yr un peth â'r fersiwn Saesneg. Mae'r fersiwn Saesneg yn datgan bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.
55-60	Gwefannau, mewnrwyd y myfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu, a phyrth dysgu	Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn hygyrch yn Gymraeg. Mae testun pob tudalen ar ein gwefan hefyd yn Gymraeg, gyda phob un o'r tudalennau Cymraeg yn gweithredu'n llawn. Nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ein gwefan. Mae pob dewislen ar fewnrwyd y myfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu, a phyrth dysgu yn hygyrch yn Gymraeg, ac maent yn gweithredu'n llawn.
60	Meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg	Mae gennym feddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar ein mewnrwyd i fyfyrwyr, ein gwefannau rhith-ddysgu, a'n pyrth dysgu.
61-63	Cyfryngau cymdeithasol ac apiau coleg.	Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac apiau coleg yn ddwyieithog, a ni thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Caiff pob post neu drydar ei bostio yn ddwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf), ac rydym yn ateb yn Gymraeg i unrhyw neges a dderbyniwn yn Gymraeg.
64	Peiriannau Hunanwasanaeth	Mae gan ein peiriannau hunanwasanaeth gyfarwyddiadau sy'n ddwyieithog.
65-67	Gosod arwyddion newydd (parhaol a thros dro)	Mae pob arwydd newydd sy'n cael ei osod yn ddwyieithog, gydag ystyr y testun Cymraeg yn cyfateb ag ystyr y testun Saesneg, a ni thrinnir y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei amlygrwydd a'i faint.
68-72	Gwasanaethau'r Dderbynfa	Mae gwasanaethau'r dderbynfa ar gael yn ddwyieithog. Mae ein derbynnydd yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu ei bod hi'n gallu siarad Cymraeg. Mae gennym arwydd ar ddesg y dderbynfa sy'n datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y dderbynfa.
73-74	Hysbysiadau newydd (parhaol a thros dro)	Mae pob hysbysiad newydd yr ydym yn cyhoeddi yn ddwyieithog, gydag ystyr y testun Cymraeg yn cyfateb ag ystyr y testun Saesneg, a ni thrinnir y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei amlygrwydd a'i faint.

75-79	Grantiau neu gymorth ariannol (Cronfa Ariannol wrth gefn)	<p>Mae pob un o'n dogfennau a'n ffurflenni sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol ar gael yn Gymraeg, ac mae cynnwys y fersiynau Cymraeg yr un peth â'r fersiynau Saesneg.</p> <p>Rydym yn derbyn ceisiadau yn Gymraeg, a ni thrinnir ceisiadau yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg. Pan rydym yn derbyn cais yn Gymraeg, ac os gwahoddir ymgeisydd i gyfweliad, mae croeso i'r ymgeisydd ddefnyddio'r iaith Gymraeg.</p> <p>Caiff pob cais a gyflwynir yn Gymraeg ei ateb yn Gymraeg.</p>
80-84	Gwahoddiadau i dendro am gontract	<p>Caiff pob gwahoddiad i dendro am gontract ei gyhoeddi'n ddwyieithog, a ni thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae ein proses dendro yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, a ni thrinnir cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol.</p> <p>Pan fydd angen cynnal cyfweliad fel rhan o'r broses dendro, gall yr ymgeisydd ofyn am gael cynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu gyda chyfieithydd ar y pryd. Caiff pob cais a gyflwynir yn Gymraeg ei ateb yn Gymraeg.</p>
85-86	Gwasanaethau iaith Gymraeg i ddysgwyr	<p>Caiff dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eu hysbysu o'r gwasanaethau iaith a gynigir gennym yn ddwyieithog.</p>
87	Logos a Hunaniaeth Gorfforaethol	<p>Mae logo'r coleg, yn ogystal ag elfennau o'n hunaniaeth gorfforaethol, yn rhoi statws ac amlygrwydd cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg.</p>
88	Cyfleoedd Dysgu i'r Cyhoedd	<p>Os bydd y coleg yn cynnig cyfleoedd dysgu i'r cyhoedd, bydd y rhain yn cael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg (nodwch nad yw'r cyrsiau a hysbysebwr yn ein prospectws na'n gwefan yn gyfwerth â chyfleoedd dysgu i'r cyhoedd).</p>
90-93	Gwasanaethau i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg	<p>Mae dysgwyr yr iaith Gymraeg yn derbyn hysbysiad o wasanaethau iaith yn ddwyieithog.</p> <p>Cynigir gwasanaeth cyfieithu i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf lle gellir sicrhau bod eu hadnoddau cwricwlwm ar gael yn Gymraeg. Hefyd, gall dysgwyr gyflwyno'u gwaith yn Gymraeg. Ni fydd y gwaith yn cael ei drin yn llai ffafriol na phe bai wedi'i gyflwyno yn Saesneg.</p> <p>Mae'r coleg yn cynnig myfyrdod bugeiliol a Bagloriaeth Cymru (Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch) trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth gofrestru, gofynnir i fyfyrwyr a ydynt yn dymuno dilyn y ddwy raglen (neu'r naill neu'r llall) drwy gyfrwng y Gymraeg. Os ydynt yn nodi eu bod am wneud hynny, yna bydd y myfyrwyr yn cael eu cofrestru yn unol â hynny.</p>

Cydymffurfio â'r Safonau Llundio Polisi

94 - 96	Asesiad Effaith Ieithyddol ar gyfer polisiâu.	<p>Mae pob polisi sy'n cael ei lunio, ei adolygu, a'i ddiweddarau yn ddarostyngedig i'n Hasesiad Effaith Ieithyddol. Mae'r asesiad hwn yn ystyried os rhoddir polisi newydd ar waith, a fydd effaith andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg (fel y'i nodir ym Mholisi Iaith Gymraeg y Coleg), er mwyn sicrhau nad yw'r polisi yn cael effaith ar hyn.</p> <p>Mae'r asesiad hefyd yn ystyried sut y gallai polisi newydd effeithio'n ffafriol ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y coleg. Mae'r asesiad yn sicrhau na chaiff y Gymraeg na'r bobl sy'n ei defnyddio hi eu heffeithio'n andwyol gan y mesurau a gynnwysir yn y polisi.</p>
97-99	Ymgynghori	<p>Mae pob dogfen ymgynghori sy'n cael ei chyhoeddi yn ystyried os yw'r mater yr ymgynghorir amdano yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg, ac yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei heffeithio'n andwyol o ganlyniad i'r weithred(oedd) sydd ynghlwm â'r broses. Gofynnir am farn pobl sy'n siarad Cymraeg yn ystod y broses ymgynghori.</p>
100	Polisi Cronfa Ariannol wrth gefn	<p>Mae ein polisi ar galedi ariannol bellach wedi'i ddiweddarau i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir o ran rhoi grant neu gymorth ariannol yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar y rheini sy'n siarad Cymraeg. Trwy hynny, bydd hynny'n sicrhau na chaiff ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg eu heffeithio'n andwyol o'u cymharu â'r ceisiadau Saesneg. Mae'r broses hon hefyd yn ystyried sut y gallai'r polisi ar galedi ariannol wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y coleg. Yn hynny o beth, mae'n sicrhau na chaiff y Gymraeg na'r bobl sy'n ei defnyddio hi eu heffeithio'n andwyol gan y mesurau a gynnwysir yn y polisi.</p>
101-103	Ymchwil	<p>Mae unrhyw ymchwil sy'n cael ei wneud neu'i gomisiynu gan y coleg yn ystyried sut mae'r mater yr ymchwilir iddo yn cael effaith ar y rheini sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg. Mae'r broses ymchwilio yn sicrhau y cymerir y Gymraeg i ystyriaeth yn y briff ymchwilio, ac a oes unrhyw ganlyniadau / argymhellion sy'n cael effaith andwyol ar y Gymraeg.</p>
104	Adolygu a Datblygu'r Cwricwlwm	<p>Mae'r ffurflen "Diwygiad Cynnig Cwrs" ar gyfer cynllunio cyrsiau newydd, eu diwygio neu eu tynnu'n ôl yn sicrhau bod penderfyniadau strategol ar y cwricwlwm yn ystyried yr effaith ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn erbyn y meini prawf yn Safon 104.</p>
105	Polisi Dwyieithrwydd	<p>Mae ein Polisi ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ein gwefan, ac mae'n cael ei fonitro'n flynyddol gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.</p>

106-111	Adnoddau Dynol	<p>Gofynnir i bob cyflogai yn ystod y broses gyn-gyflogaeth a hoffai gael ei g/chontract cyflogaeth yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â'i g/chyflogaeth yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei (h)anghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei (h)amcanion rheoli perfformiad yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei g/chynllun gyrfaol yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ddogfennaeth reoli perfformiad yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i bob cyflogai a hoffai dderbyn unrhyw ffurflenni sy'n recordio ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith, ac oriau gwaith hyblyg yn Gymraeg.</p> <p>Ym mhob un o'r achosion a nodir uchod, caiff cyflogeion eu hysbysu o'r uchod, a gellir darparu dogfennau Cymraeg ar eu cyfer yn ôl yr angen:</p>
112-118	Polisiau AD	<p>Mae pob un o'n polisiau AD yn ddwyieithog, ac maent ar gael i'w darllen ar fewnwyd y coleg.</p>
119-126	Polisi Cwynion y coleg	<p>Mae'r polisi cwynion yn datgan y gall staff wneud cwyn yn Gymraeg neu'n Saesneg.</p> <p>Yn ystod cyfarfod ynglŷn â chwyn a wnaed, neu gyfarfod sy'n ymchwilio i gŵyn, gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os y'i dymunir gan aelod o staff.</p> <p>Darperir ymateb ysgrifenedig i'r gŵyn yn ddwyieithog os cafodd y cwyn neu'r broses o ymchwilio i'r cwyn eu gwneud yn ddwyieithog.</p> <p>Yn ystod y cyfarfod sy'n adrodd canlyniad y gŵyn, gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os y'i dymunir gan aelod o staff.</p>

121 -126	Polisi Disgyblu	<p>O fewn gweithdrefn ddisgyblu'r Coleg, gall aelodau staff ymateb yn Gymraeg i honiad a wnaed yn eu herbyn.</p> <p>Yn ystod cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu, gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os dymunir.</p> <p>Gellir darparu ymateb ysgrifenedig yn sgil y broses ddisgyblu yn ddwyieithog os y'i dymunir gan aelod o staff.</p> <p>Yn ystod y cyfarfod sy'n adrodd canlyniad y broses ddisgyblu, gellir darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os y'i dymunir gan aelod o staff.</p>
127	Meddalwedd gyfrifiadurol	Mae gennym feddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar fewnrwyd y staff.
128-133	Mewnrwyd y Coleg	<p>Mae gan fewnrwyd y coleg ddewislen yn Gymraeg sy'n gweithredu'n llawn. Mae pob tudalen ar y fewnrwyd honno'n hygyrch yn Gymraeg, gyda chynnwys a rhyngwyneb sy'n cyfateb â'r fersiwn Saesneg.</p> <p>Ceir gwefan 'SharePoint' ar y fewnrwyd gyda deunydd a hyfforddiant neilltuol i staff allu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.</p>
134	Asesu sgiliau iaith Gymraeg	Mae'r coleg yn cynnal arolwg o sgiliau iaith Gymraeg ei staff pob blwyddyn, ac rydym yn hyrwyddo cyfleoedd a hyfforddiant iaith Gymraeg i'n staff.
135	Hyfforddiant	<p>Pan mae'r coleg yn cynnig hyfforddiant yn y meysydd canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (d) anwytho/ymsefydlu; (e) delio â'r cyhoedd; (f) iechyd a diogelwch; <p>Rydym yn darparu hyfforddiant o'r fath yn y ddwy iaith.</p>
136	Defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod	Mae'r coleg yn cynnig hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
138 & 139	Gwersi Cymraeg	<p>Mae'r coleg yn cynnig cyfleoedd i'n staff gael gwersi Cymraeg sylfaenol yn ystod oriau gwaith. Mae'r coleg yn hyrwyddo cyfleoedd i staff wneud gwersi Cymraeg uwch y tu allan i'r oriau gwaith, yn rhad ac am ddim.</p> <p>Mae'r coleg yn darparu hyfforddiant i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.</p>
140-142	Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	Yn ystod ein proses anwytho, rydym yn cyflwyno cwrs yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â'r Safonau, a defnydd o'r Gymraeg yn y coleg.

142-143	Llofnodion e-bost	Mae'r coleg yn hwyluso ac yn sicrhau bod gan bob aelod o staff lofnod e-bost ddwyieithog, gan gynnwys negeseuon 'tu allan i oriau' sy'n ddwyieithog. Gall staff hefyd ddefnyddio logo sy'n eu galluogi i ddynodi eu bônt yn rhugl yn Gymraeg.
144-A	Bathodynau sy'n cyfleu'r gallu i siarad Cymraeg	Mae'r coleg yn darparu bathodynau i'w staff wisgo sy'n cyfleu eu gallu i siarad Cymraeg, ac rydym yn hybu eu pwysigrwydd ymhlith ein staff.
145 -A	Recriwtio	<p>Pan mae'r coleg yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd, rydym yn nodi a yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol, ac fe'u categorieddir hwy fel a ganlyn: dymunol, dysgu pan benodir rhywun i'r swydd, neu'n hanfodol.</p> <p>Caiff pob swydd wag a'i swydd-ddisgrifiad eu hysbysebu'n ddwyieithog. Mae'r ffurflen gais hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae'n nodi'r ffaith nad yw'r coleg yn trin cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p> <p>Mae'r ffurflen gais yn nodi bod ymgeiswyr yn gallu ymgymryd ag unrhyw ran o'r broses ddethol yn Gymraeg, os dymunent. Os ydynt, darperir gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.</p> <p>Mae'r dyddiad cau a'r broses ddethol ar gyfer y rhai sy'n ymgeisio'n Gymraeg yr un peth â'r rheini sy'n ymgeisio'n Saesneg.</p> <p>Pan mae ymgeisydd yn gwneud cais am swydd gan ddefnyddio'r Ffurflen gais Cymraeg, bydd y coleg yn hysbysu'r ymgeisydd hwnnw o ganlyniad ei g/chais yn Gymraeg.</p>
150-2	Arwyddion	Mae pob arwydd newydd a osodir gennym yn ddwyieithog, a ni thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (o ran ei ystyr a mynegiant). Ar bob arwydd sy'n cael ei osod, mae'r testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
154-7	Cwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg	Cedwir cofnod o'r cwynion yr ydym yn eu cael sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac rydym yn gweithredu'n briodol yn sgil unrhyw gŵyn a gawn. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22, cawsom un gŵyn.
158	Asesu sgiliau iaith Gymraeg	Mae'r coleg yn cynnal arolwg o sgiliau iaith Gymraeg ei staff pob blwyddyn, ac rydym yn hyrwyddo cyfleoedd a hyfforddiant iaith Gymraeg i'n staff.
159	Cadw cofnod o'r cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg	Cedwir cofnod o'r nifer o'n haelodau staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant yn Gymraeg.
161-2	Asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swydd newydd	Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cadw cofnod o bob asesiad a wnaed mewn perthynas â'r sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer swydd newydd neu swydd wag.
163, 165-167 & 172	Dyletswydd i gofnodi	Caiff adroddiad blynyddol sy'n manylu ar gydymffurfiaid Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant â'r Safonau ei gyhoeddi ar wefan y coleg.

164 & 170	Gweithdrefn gwyno	Mae gan y Coleg weithdrefn gwyno sy'n cael ei chyhoeddi ar wefan y coleg, ac mae'n cynnwys manylion ar sut y gall pobl wneud cwyn i'r coleg ynghylch yr iaith Gymraeg.
167-9, 171175	Polisi ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Mae Polisi Iaith Gymraeg y Coleg wedi'i gyhoeddi ar wefan y coleg.

Hyfforddiant staff

Yn 2023 roedd 10 aelod o staff yn ymgymryd ag ystod o raglenni hyfforddiant iaith Gymraeg.

Monitro ein Cydymffurfiad

Mae Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg yn gweithio'n agos gyda rheolwyr yn y coleg i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safonau iaith Gymraeg y coleg. Cynhelir cyfarfodydd diweddarau rheolaidd gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb datganoledig dros safonau. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau cwricwlwm, ystadau, marchnata, adnoddau dynol, cyllid a gwasanaethau myfyrwyr.

Mae Swyddog Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg yn cynnal rhaglen wedi'i hamserlennu i wirio cydymffurfiaeth â'r safonau. Mae hyn yn cynnwys archwilio dogfennaeth, adolygu arwyddion, negeseuon llais, ac ymarferion siopwr dirgel mewn marchnata, recriwtio a gwasanaethau myfyrwyr.

Anfonir canlyniadau'r archwiliadau a gwiriadau hyn yn ôl i'r rhai sydd â chyfrifoldeb datganoledig a chytunir ar gamau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ym meysydd sydd wedi methu'r nod. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf ym mis Rhagfyr 2023 a dangosodd fod y coleg yn cydymffurfio yn y mwyafrif helaeth o achosion. Mewn achosion lle syrthiodd y maes cyfrifol islaw'r safon, darperir arweiniad a hyfforddiant i wella perfformiad.